Multi Agency Public Protection Arrangements

# Adroddiad Blynyddol Gogledd Cymru 2024 i 2025



Protecting the public for 25 years

# Cyflwyniad



**Nicola Davies**

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol Cymru,**
**Gwasanaeth Prawf Cymru**

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol Cymru, mae'n fraint fawr cyfrannu at Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) 2024-2025.

Mae MAPPA yn dod â'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, y Gwasanaeth Carchardai, ac asiantaethau eraill fel Tai, Awdurdodau Lleol, Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Iechyd, at ei gilydd i ddiogelu'r cyhoedd a rheoli risgiau sy'n cael eu hachosi gan droseddwyr difrifol. Wrth galon y Gwasanaeth Prawf mae ein hymrwymiad i gydweithio ag asiantaethau eraill. Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw cryfhau ein dull gweithredu a chael effaith ystyrlon ar gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Eleni, cyflwynwyd nifer o newidiadau i'r Gwasanaeth Prawf, gyda nod clir o roi pwys mawr ar ddiogelu'r cyhoedd a galluogi gwasanaethau i wneud pob ymdrech ar ran y rheini sydd yn y ddalfa ac yn y gymuned sy'n peri'r risg fwyaf o ymddygiad rhywiol a threisgar. Mae Byrddau Rheoli Strategol MAPPA yn hollbwysig o ran dal pob asiantaeth i gyfrif am effeithiolrwydd trefniadau gweithio amlasiantaeth, a rhoi sicrwydd i ddioddefwyr ac aelodau'r cyhoedd o ymrwymiad MAPPA i leihau aildroseddu a niwed.

Gyda MAPPA yn nodi ei bumed flwyddyn ar hugain, mae'n dangos llwyddiant ac ymroddiad yr holl asiantaethau cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn darparu ystadegau o'r flwyddyn ddiwethaf, gan gyflwyno nifer yr unigolion sy'n cael eu rheoli o dan MAPPA a sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y rheini sy'n cael eu dyfarnu'n euog o droseddau difrifol. Gwelwyd cynnydd yn MAPPA eleni, sy'n adlewyrchu ein haddewid i'r gymuned y byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau gwelliannau a datblygu diwylliant o ddysgu.

Rydym yn gwerthfawrogi holl gyfraniadau ein rhanddeiliaid, sy'n hanfodol i gadw cymunedau'n ddiogel drwy reoli risg yn drwyadl.

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan unigolion sydd wedi cyflawni'r troseddau rhyw, treisgar a therfysgaeth mwyaf difrifol ('unigolion cymwys ar gyfer MAPPA') o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Maen nhw'n dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd o dan gorff o'r enw Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) gyda'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Y Byrddau Rheoli Strategol Lleol (SMB), sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau DTC, sy'n gyfrifol am gyflwyno MAPPA yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar bob SMB MAPPA.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli unigolion cymwys ar gyfer MAPPA, ac sy'n gweithredu fel arsylwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes yn meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol at yr SMB (mae'n rhaid bod ganddynt gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a'u bod yn byw yno).

## MAPPA '25

Ymgyrch i nodi 25 mlynedd ers y ddeddfwriaeth a gyflwynodd gydweithrediad amlasiantaeth gorfodol i reoli'r rheini sydd wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar a rhywiol yw MAPPA '25.

Nodau ymgyrch MAPPA '25 yw;

- Cynyddu ymwybyddiaeth o MAPPA a hyder ynddo ar draws ystod eang o asiantaethau, ar bob lefel, o ymarferwyr rheng flaen i uwch arweinwyr.
- Ymgysylltu â'r rheini y mae MAPPA yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, gan gynnwys dioddefwyr a'r rheini sy'n destun rheolaeth MAPPA.
- Gwella ymarfer MAPPA ar draws pob asiantaeth.
- Archwilio themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd ac annog yr holl randdeiliaid perthnasol i fuddsoddi yn MAPPA yn y dyfodol.

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Tîm Cenedlaethol MAPPA y digwyddiad ar-lein cyntaf. Teitl y digwyddiad oedd *"Where did MAPPA come from and why did we need them"*, ac roedd yn cynnwys trafodaeth banel gyda'r Athro Emeritws Hazel Kemshall a'r Ditectif Brif Arolygydd Tim Bryan, sydd wedi ymddeol. Roedd y ddau ohonynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau ar ddechrau'r ganrif. Daeth dros 800 o bobl i'r digwyddiad ac, ers hynny, mae dros 1,700 o bobl wedi gwylio'r digwyddiad, gan fod yn hynod boblogaidd ymhlith gweithwyr

proffesiynol o awdurdodau cyfrifol, asiantaethau dyletswydd i gydweithredu ac asiantaethau cyswllt, yn ogystal â'r sector preifat sy'n gweithio gydag unigolion MAPPA, a oedd yn awyddus i ddysgu mwy am hanes MAPPA a'r rhesymau pam mae MAPPA yn dal yn hanfodol hyd heddiw.

Bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod 2025-26, ac felly byddant yn cael sylw yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

## Sut mae MAPPA yn gweithio

Mae unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu nodi ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y rheini sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna cyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen goruchwyliaeth ar lefel uwch a rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Mewn achosion o'r fath, bydd ymarferwyr yr asiantaethau perthnasol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd MAPPA.

Mae pedwar categori o unigolyn sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1** – yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw;
- **Categori 2** – y rheini a gafwyd yn euog o droseddau treisgar yn bennaf, ac sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty;
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1, 2 na 4 ond y mae eu troseddau'n cyflwyno risg o niwed difrifol;
- **Categori 4** – unigolion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau terfysgaeth, ac unigolion sydd mewn perygl o derfysgaeth.

Nid yw data ar unigolion Categori 4 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd materion diogelu data sy'n ymwneud â niferoedd isel. Bydd y data hwn yn cael ei gyfuno a'i gyhoeddi'n genedlaethol.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod yr adnoddau'n canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; fel arfer, y rheini sy'n peri risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw lle mae'r unigolyn yn cael ei reoli gan y brif asiantaeth drwy gyfnewid gwybodaeth a darparu **cymorth amlasiantaethol** yn ôl yr angen ond heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r unigolyn;
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch mewn cyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli unigolion sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd unigolion risg uchel yn symud rhwng ardaloedd, gan wella unrhyw fesurau diogelu'r cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Charchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.gov.uk.

# Ystadegau MAPPA

### Unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2025

| | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 1068 | 281 | - | 1349 |
| Lefel 2 | 10 | 23 | 16 | 49 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 1078 | 304 | 16 | 1398 |

### Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA – Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)

| | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 44 | 59 | 69 | 172 |
| Lefel 3 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 44 | 61 | 70 | 175 |

| | |
|---|---|
| **Categori 1 - wedi cael rhybudd ar ôl torri gofynion hysbysu** | 24 |
| **Categori 1 - wedi cael eu canfod yn euog o dorri gofynion hysbysu** | 32 |

| | |
|---|---|
| **Categori 1 - lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 1 |

### Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) | 76 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchymyn Hysbysu | 0 |

| **Nifer yr unigolion a ddaeth yn destun gofynion hysbysu troseddwr rhyw yn dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 1 |
|---|---|

**Unigolion Lefelau 2 a 3 sydd wedi dychwelyd i'r ddalfa**

| Dychwelyd i'r ddalfa am dorri amodau trwydded | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 11 | 22 | 30 | 63 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 11 | 22 | 31 | 64 |

| Torri SHPO | |
|---|---|
| Lefel 2 | 1 |
| Lefel 3 | 0 |
| Cyfanswm | 1 |

| **Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n destun gofynion hysbysu troseddwyr rhyw fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 171 |
|---|---|

Mae'r ffigur hwn wedi ei gyfrifo gan ddefnyddio'r amcangyfrif o boblogaeth trigolion ganol 2024, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 30 Gorffennaf 2025, ac eithrio plant iau na 10 mlwydd oed.

# Sylwadau esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm yr unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2025 (hynny yw, maent yn rhoi cipolwg). Mae gweddill y data yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

**(a) Unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA** – mae yna unigolion a ddiffinnir yn y gyfraith fel rhai cymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw, treisgar neu derfysgaeth penodol, neu eu bod ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol. Rheolir y rhan fwyaf ar Lefel 1, heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond yr unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ac sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Unigolion sy'n destun Gofynion Hysbysu Troseddwr Rhyw** – unigolion sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill, a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r unigolion hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid neu wasanaethau iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd sy'n arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – unigolion a gafwyd yn euog o droseddau treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu a gadwyd dan glo am 12 mis neu fwy, neu a gadwyd dan glo dan orchymyn ysbyty, a nifer fach o unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu. Mae'r unigolion hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid neu Wasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – unigolion nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori cymwys arall ar gyfer MAPPA, ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba bynnag asiantaeth sy'n bennaf gyfrifol amdanynt.

**(e) Troseddwyr Terfysgaeth a Throseddwyr sy'n peri risg o Derfysgaeth** – unigolion sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr terfysgaeth; unigolion a gafwyd yn euog o derfysgaeth, neu droseddau sy'n ymwneud â therfysgaeth, a ddedfrydwyd i garchar neu eu cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu a gafodd eu cadw dan orchymyn ysbyty; a'r rheini sydd wedi cyflawni trosedd ac a allai fod mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae'r unigolion hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr Heddlu Gwrthderfysgaeth ac Adran Diogelwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf.

**(f) Torri Trwydded** – bydd unigolion sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf). Os nad yw'r unigolyn yn cydymffurfio â'r amodau hyn, bydd y Gwasanaeth Prawf yn cymryd camau tor-amod a gall yr unigolyn gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(g) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol Dros Dro yw diogelu'r cyhoedd rhag unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar sy'n peri risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau a/neu rwymedigaethau cadarnhaol ar eu hymddygiad. Maent yn gofyn bod yr unigolyn yn rhoi ei fanylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon, ar gydbwysedd tebygolrwydd, bod angen y gorchymyn i warchod y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu

oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan Brif Swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), neu Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MODP), rhaid i'r prif swyddog/NCA/BTP/MODP ddangos bod yr unigolyn wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(h) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i unigolion a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau rhywiol dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr roi gorchymyn hysbysu'n uniongyrchol i droseddwr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU ac sy'n gorfod hysbysu o fewn tri diwrnod i'w dderbyn. Mae gan unigolion hawl i apelio yn erbyn hysbysiad.

**(i) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar deithio dramor)** – mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gall yr SRO gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais yr heddlu, NCA, BTP neu'r MODP, lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall SRO wahardd yr unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo, gan gynnwys teithio dramor, neu osod rhwymedigaethau cadarnhaol arno. Rhaid i unrhyw waharddiad a/neu rwymedigaeth fod yn angenrheidiol i warchod y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, gwarchod plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn sy'n destun SRO hysbysu'r heddlu ynghylch ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod i wneud y gorchymyn, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma o fewn tri diwrnod.

Mae SRO yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, para am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall y person sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r person dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd, a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion sy'n destun SRO yn cael eu cofnodi ar ViSOR fel Person Peryglus Posibl (PDP).

**(j) Gofyniad hysbysu gydol oes wedi'i ddiddymu ar gais** – Gall unigolion cymwys gyflwyno cais i'r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Bydd yr heddlu'n adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid diddymu'r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar lefel Uwch-arolygydd. Bydd y rhai sy'n parhau i gyflwyno risg sylweddol yn aros yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu am oes, lle bo angen.

Bydd unigolion ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc.

# Tudalen leol

## Dull amlasiantaeth o fynd i'r afael ag ymddygiad stelcio

Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi croesawu model cydweithredol MAPPA i fynd i'r afael ag ymddygiad stelcio. Yn ogystal â defnyddio arbenigwr stelcio i roi cyngor ar achosion MAPPA lle mae stelcio'n cael ei nodi fel rhan o ymddygiad y troseddwr, rydym hefyd wedi datblygu panel stelcio amlasiantaeth arbenigol (MASP), sy'n dod ag arbenigedd o wahanol asiantaethau at ei gilydd i reoli a lleihau'r risg a achosir gan y rhai sy'n peri'r risg uchaf o stelcio.

Mae'r panel stelcio misol yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd o'r heddlu ac mae amrywiol weithwyr proffesiynol yn mynychu, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, BIPBC, DASU/Cymorth i Ddioddefwyr ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Mae holl aelodau rheolaidd y panel wedi cael hyfforddiant arbenigol ar broffil risg stelcio, ac mae nifer o aelodau'r panel hefyd wedi cael eu hyfforddi i asesu a rheoli stelcio gan ddefnyddio'r canllawiau risg stelcio. Mae'r panel hefyd yn elwa ar arbenigedd seicolegydd clinigol sydd â gwybodaeth arbenigol am y math hwn o droseddwr.

Hyd yma, mae dros 65 o achosion wedi cael eu trafod yn y lleoliad amlasiantaeth hwn, sydd wedi arwain at ymchwiliadau mwy cadarn, sancsiynau cyfreithiol mwy effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, ffactorau mwy amddiffynnol i ddioddefwyr, mwy o gyfleoedd i leihau troseddu pellach, cymorth mwy effeithiol i ddioddefwyr a dull cydgysylltiedig o ddadansoddi a rheoli risg.

Fe wnaeth y trosolwg manwl hwn o un achos sicrhau ymchwiliad cryf a arweiniodd at euogfarn am stelcio a dedfryd o 43 mis o garchar, ymysg cosbau eraill, gweithredu gorchymyn atal 20 mlynedd, atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol, symud tŷ i'r dioddefwr, cymorth effeithiol i ddioddefwyr, gan gynnwys sgan ar gyfer dyfeisiau olrhain cudd yn ei chartref, ei cherbyd a'i ffôn clyfar, ac mae'r troseddwr bellach yn cael ei reoli ar lefel MAPPA 3 i fynd i'r afael â'r risg barhaus. Mae'r dull rheoli risg integredig hwn wedi hyrwyddo ymataliad yr ymddygiad ac, mewn llawer o achosion, wedi lleihau'n sylweddol y trallod seicolegol a achosir i ddioddefwyr, atal gwaethygu a lleihau amlygrwydd trais.

Mae'r panel stelcio yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddadansoddi ymddygiad stelcio a deall a chategoreiddio troseddwyr yn ôl math. Yn gyffredinol, mae 5 categori gwahanol o stelciwr, pob un â ffactorau risg ychydig yn wahanol, felly os gallwn ddeall pa fath maen nhw'n perthyn iddo, gallwn gynnal asesiad risg llawer mwy cywir. Mae'r panel stelcio yn rhoi cipolwg hanfodol ar ymddygiadau baner goch ac mae aelodau'n darparu gwybodaeth ac arbenigedd manwl i sicrhau bod cynlluniau rheoli risg yn gadarn ac wedi'u teilwra i fod mor effeithiol â phosibl.

Mae ein gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad stelcio yng ngogledd Cymru wedi helpu i ganfod patrymau cynnar o ymddygiad sy'n peri pryder a gwella'r ymateb i stelcio fel math o drosedd. Rydym wedi gweld rheolaeth well a mwy effeithlon ar droseddwyr stelcio, ymchwiliadau o ansawdd uwch a chymorth wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael â'r cymhelliant sylfaenol i stelcio. Y gobaith yw y bydd cymorth pwrpasol amlochrog yn atal digwyddiadau rhag digwydd eto ac yn lleihau difrifoldeb digwyddiadau.

Mae rhannu gwybodaeth yn gyflym, a gwybodaeth arbenigol am ymddygiad risg troseddwyr, wedi bod yn amhrisiadwy o ran deall a rheoli troseddwyr stelcio a datblygu cynlluniau argyfwng cadarn sy'n addas i fynd i'r afael â'u hamgylchiadau a'u hanghenion.

Drwy ddefnyddio dull amlasiantaeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol stelcio, gallwn sicrhau cefnogaeth gydlynol a chryfhau ein

hymrwymiad i ddiogelu cymunedau ac atal niwed.

**DS Sally White**
**Heddlu Gogledd Cymru**

## Awdurdod Lleol Wrecsam - Tîm Asesu a Chyswllt Troseddwyr

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ochr yn ochr ag asiantaethau allweddol eraill, Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdodau Cyfrifol.

Mae Tîm Asesu a Chyswllt Troseddwyr (OALT) Gwasanaethau Oedolion Wrecsam yn cymryd rhan fel aelodau craidd o banel amlddisgyblaethol MAPPA i lunio llwybrau ar gyfer unigolion sy'n destun rheolaeth MAPPA Lefel 2.

Mae'r OALT yn mynychu cyfarfodydd MAPPA yn fisol ac rydym ni'n cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol atgyfeirio unigolion maen nhw'n gweithio gyda nhw yn ardal Wrecsam. Os bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud, bydd aelod o'n tîm yn cael ei neilltuo i sgrinio a chysylltu â'r unigolyn i asesu ei anghenion, gan ddefnyddio dogfen 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Gall yr asesiad ddigwydd yn y ddalfa, mewn Adeilad Cymeradwy neu yn y gymuned, naill ai yng nghartref yr unigolyn neu yn y swyddfa brawf. Yn dilyn yr asesiad, rydym ni'n trafod cymorth posibl, am chwe wythnos i ddechrau.

Mae'r cymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn. Efallai y bydd angen cymorth ar yr unigolyn gyda'i weithgareddau bywyd bob dydd sy'n gofyn am becyn gofal. Gallai hyn fod yn ofalwr sy'n dod i'r cartref i gefnogi'r unigolyn gyda gofal personol, gwisgo a gwneud prydau bwyd. Mae eraill wedi elwa o gymorth i gael mynediad at y gymuned. Gallai cymorth yn y gymuned olygu ymuno â'r gweithlu neu addysg drwy gefnogi'r unigolyn i gysylltu â sefydliadau fel Gyrfa Cymru, colegau lleol neu'r Brifysgol Agored. I ddechrau, efallai y byddwn yn helpu i gasglu gwybodaeth cyn bwrw ymlaen i helpu gyda cheisiadau. Mae rhai unigolion yn teimlo bod angen cymorth arnynt i fagu hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i lywio drwy ganol y dref a dod o hyd i wasanaethau.

Gallwn gysylltu â'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a sefydliadau sy'n darparu cymorth tenantiaeth. Gallai hyn gynnwys gofyn am fynediad at barseli bwyd, grantiau'r Gronfa Cymorth Dewisol, gwarantau teithio neu gymorth ariannol arall. Gall ein tîm hefyd helpu pobl i fynychu apwyntiadau gyda gweithwyr meddygol proffesiynol neu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Gall OALT gefnogi'r rheini sy'n gadael y ddalfa drwy sicrhau bod ganddynt gludiant digonol os nad ydynt yn gallu symud rhyw lawer. Gallwn hefyd gysylltu â'r adran dai i sicrhau bod yr unigolyn yn gwybod beth i'w wneud ar y diwrnod y caiff ei ryddhau o'r ystâd ddiogel.

Mae'r OALT yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o reoli achosion MAPPA Lefel 2 cymwys. Mae cydweithio rhwng OALT a MAPPA yn gwella diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o erledigaeth a niwed difrifol.

**Lauren Hallett**
**Tîm Cyswllt Asesu Troseddwyr**

**Mae holl adroddiadau MAPPA o Gymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**


T / ACC Gareth Evans
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
LL29 8AW

Andy Jones
Prif Swyddog Cynorthwyol
Pennaeth Uned Gyflawni Prawf
Gogledd Cymru
Y Gwasanaeth Prawf
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AA

Lowri A. Owen
Cydlynydd MAPPA
Uned Diogelu'r Cyhoedd yn y
Gymuned
Y Gwasanaeth Prawf


HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

HM PRISON SERVICE
GWASANAETH CARCHAR EM

Gwasanaeth Prawf
Probation Service